

A joint venture partnership



DP ENERGY



EDF  
renewables

Gwynt GLAS

Issue 1

February 2023

**Sgrolwch i lawr i weld hwn yn Gymraeg // Please scroll down to view this in Welsh**

## Gwynt Glas – One Year On

Just over a year ago, EDF Renewables UK and DP Energy announced their Gwynt Glas Floating Offshore Wind joint venture project. Gwynt Glas, Welsh for 'blue wind', encapsulates the ambition of both organisations to develop Floating Offshore Wind in the Celtic Sea. The ultimate goal being, to generate renewable energy, support energy security and boost regional economic prosperity, while minimising disruption to the natural environment, local communities and sea users.

It has been an exciting 12 months for the joint venture team conducting initial development activities. This newsletter provides an opportunity to re-cap on our activity over the past year and highlight our latest news and forthcoming events.



## New Project Director



We are delighted to announce the appointment of Mark Hazelton as the Gwynt Glas Project Director. Mark brings a wealth of experience working in the development, planning and policy elements of offshore wind having worked at The Crown Estate, managers of the seabed, and the Marine Management Organisation, UK marine licensing authority, before joining EDF Renewables UK where he has led the development of both fixed and floating wind farm projects.

Image: Mark Hazelton, Gwynt Glas Project Director

*"I'm thrilled to be joining this established project team. The Gwynt Glas team blends locally based expertise with global industry know how, and is backed*

*by two organisations with a track record in delivery. This is proving to be a great formula. I'm looking forward to working with the team in what is shaping up to be an exciting and busy year for everyone involved in the Celtic Sea."*

## Gwynt Glas Project Update Summary

In March 2021, The Crown Estate announced that it intends to award 4GW of seabed rights to developers for floating offshore wind (FLOW) projects in the Celtic Sea, with a further 20GW of capacity to follow by 2045.



Image: 3D Model of the proposed IGW Gwynt Glas offshore wind farm

We are currently conducting initial development activities with the intention of obtaining an Agreement for Lease from The Crown Estate for a IGW floating offshore wind farm. Activities include:

- + Conducting aerial site surveys for marine mammals and birds since April 2021
- + Grid connection secured
- + Commercial fisheries liaison consultation events in Wales and South West England
- + Initial consultation on key receptors such as shipping and navigation and nature conservation
- + Supply chain engagement activity
- + Future workforce development and community outreach events
- + Participation on industry forums and research initiatives

Our proposed IGW project could provide power for approximately 920,000 homes. For more information on the leasing process visit [The Crown Estate](#)

[website](#)

Visit the [Gwynt Glas website](#) for all the latest project news

## Supply Chain Readiness



We will be readying the market for the Celtic Sea opportunity by speaking to suppliers at an event in Parc Y Scarlets ahead of the Swansea Bay Business Club's March 1st Business Lunch.

Image: Parc Y Scarlets rugby ground in Llanelli

Businesses will be able to find out more about the floating wind industry and our project and how they may be able to support its growth.

Our project team will build on EDF's track record in maximising local economic and social benefits when building large scale infrastructure projects to its advantage to support local jobs and supply chains. Last year the project signed a Memorandum of Understanding (MoU) with the UK's largest port operator, Associated British Ports, and Wales' largest energy port, the Port of Milford Haven, to ready the ports for the future needs of floating offshore wind in the Celtic Sea. Under the MoU, information and industry knowledge will be shared to investigate the potential opportunities for manufacture, assembly, load-out and servicing for the Gwynt Glas project from the key South Wales Ports of Port Talbot and Milford Haven, demonstrating our intention to focus on a local supply chain and support long-term skilled local jobs in coastal regions.

**EDF Renewables is currently building out France's first floating wind pilot-project, Provence Grand Large, which committed from the outset to mobilise local companies.**

EDF is also building Hinkley Point C in Somerset, one of the largest construction projects in Europe, projected to invest £18 billion in Britain and support 71,000 job opportunities across the UK.



Image: Foundations under construction in Marseille for the Provence Grand Large

## Laying the Foundations for the Industry's Future Workforce

Recognising that a skilled workforce is a prerequisite to rolling out floating wind technology quickly, EDF Renewables and DP Energy have joined forces with Pembrokeshire College to deliver an industry-led programme preparing students for the future renewables' jobs market.

Destination Renewables is transferring real-world sector knowledge to 16-18 year-olds. The collaboration with industry and academia aims to bridge the skills gap and showcase the diverse range of careers within the sector. To date, 23 delivery partner companies from across the sector, and over 40 talented professionals have given their time and knowledge to inspire and showcase careers within the sector.



We couldn't be prouder that Destination Renewables won a national 'Offshore Wind Energy Skills Award' at the inaugural Renewable UK Global Offshore Wind Awards in October 2022 and was praised by RUK judges as the kind of initiative which helps to lay the foundations for the industry's future workforce. In the same month the programme was also a finalist in the Wales STEM Awards.



Image: Destination Renewables Programme launch event for learners and industry at Pembrokeshire College September 2022

## Skills Competition Wales' First Renewable Energy Challenge A Great Success

Inspiring Skills Excellence in Wales has been supporting young people across Wales since 2014 to achieve excellence through Skills Competitions, to help them excel in the world of work.

On the 2nd February Pembrokeshire College played host to the first event focused on Renewable Energy. Gwynt Glas was delighted to sponsor it, allowing college teams from all over Wales to participate. Learners spent the day researching and putting forward innovative ideas to find a holistic energy solution for a fictional island relying on ageing diesel generators.

The day kicked off with a welcome address from Barry Walters, Principal of Pembrokeshire College and Sam Kurtz, Member of the Senedd for Carmarthen West and South Pembrokeshire.



Image: Rebecca Williams, The Crown Estate's Director for Wales, who was on the judging panel, talked about her career journey since leaving Pembrokeshire College and the role of The Crown Estate in the development of renewables in the Celtic Sea.



Image: Chris Williams, Head of Development UK and New Markets for DP Energy, who was acting as a consultant for the teams during the day, shared his thirty years experience of developing renewable projects across Wales, the UK and overseas.

The learners spent a long time researching their project ideas and impressed the judges, a panel of industry experts, with their final proposals.

Arwyn Williams, Head of Faculty for Engineering at Pembrokeshire College said: *“This has been an exciting competition, raising awareness of the increasingly important role of renewable energy generation, the opportunities and challenges. This competition has also helped develop some of the skills needed to work in the industry: problem solving, team work, effective communication, resource management, leadership.*

*I would like to congratulate all who took part in today’s event. We have seen some superb ideas put forward. I have been so impressed by the level of professionalism seen in the room today. Teams have presented with confidence and detailed knowledge. Well done all involved.*

*I have no doubt that this event will help ready our students for the transition to net zero. We are grateful to our sponsors Gwynt Glas who have backed this pilot competition which I hope will gain momentum as projects in the Celtic Sea develop.”*

The winners will be announced in a pan-Wales awards ceremony in March.

## It’s Good to Talk!

Over the last year we have been fortunate to have had numerous key stakeholder meetings with knowledgeable professionals who have provided invaluable feedback on key constraints for consideration in The Celtic Sea area.



Our in-person meetings with local fisheries representatives and businesses in Milford Haven, Brixham, Padstow and Newlyn allowed us to share floating



offshore wind industry developments, our early stage project proposal and gain valuable insight from those who work in and around the Celtic Sea area.

## Our Year in Pictures



OG Team's beach clean



Future Energy Wales 2022



EC Celtic Sea Conference 2022



STEM Education Outreach



Global Offshore Wind Award Winners



Future Energy Wales 2022 Panel



Careers Wales Event, Pembrokeshire



Destination Renewables Delivery Partners and Students



Brixham Fish Market

## Gwynt Glas Dates for the Diary

<b>Gwynt Glas Supply Chain Event South Wales</b>	<b>1st March</b>	<b>Parc Y Scarlets Llanelli</b>	<b>Get in touch to register your interest</b>
<b>Gwynt Glas Supply Chain Event South West</b>	<b>TBC</b>	<b>TBC</b>	<b>Check back on our website. More details to follow.</b>
<b>MEW Conference</b>	<b>21st - 22nd March</b>	<b>Swansea Arena</b>	<b>We look forward to seeing you there!</b>

A joint venture partnership



**Get in touch with the Gwynt Glas team:**

email: [info@gwyntglas.com](mailto:info@gwyntglas.com)

**For latest news visit our website:**

[www.gwyntglas.com](http://www.gwyntglas.com)

## Un Blwyddyn yn Ddiweddarach

Ychydig dros flwyddyn yn ôl, cyhoeddodd EDF Renewables UK a DP Energy eu prosiect menter ar y cyd ynni gwynt alltraeth arnofiol Gwynt Glas. Mae Gwynt Glas yn crisialu uchelgais y ddau sefydliad i ddatblygu Gwynt Alltraeth Arnofiol yn y Môr Celtaidd. Y nod yn y pen draw yw cynhyrchu ynni adnewyddadwy, cefnogi diogelwch ynni a hybu ffyniant economaidd rhanbarthol, tra'n lleihau'r tarfu ar yr amgylchedd naturiol, cymunedau lleol a defnyddwyr y môr.

Mae wedi bod yn 12 mis cyffrous i'r tîm menter ar y cyd wrth iddynt gynnal gweithgareddau datblygu cychwynnol. Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi cyfle i grynhoi ein gweithgarwch dros y flwyddyn ddiwethaf a thynnu sylw at ein newyddion diweddaraf a digwyddiadau sydd i ddod.



## Cyfarwyddwr Prosiect Newydd



Rydym yn falch iawn o gyhoeddi penodiad Mark Hazelton fel Cyfarwyddwr Prosiect Gwynt Glas. Daw Mark â chyfoeth o brofiad o weithio ym meysydd datblygu, cynllunio a pholisi ynni gwynt ar y môr ar ôl gweithio yn Ystâd y Goron, rheolwyr gwely'r môr, a'r Sefydliad Rheoli Morol, awdurdod trwyddedu morol y DU, cyn ymuno ag EDF Renewables UK lle mae wedi arwain datblygiad prosiectau ffermydd gwynt sefydlog ac arnofiol.

Llun: Mark Hazelton, Cyfarwyddwr Prosiect Gwynt Glas

“Rydw i wrth fy modd yn ymuno â'r tîm prosiect sefydledig hwn. Mae tîm Gwynt Glas yn cyfuno arbenigedd lleol â gwybodaeth byd-eang am y diwydiant, ac fe'i cefnogir gan ddau sefydliad sydd â hanes da iawn o gyflawni. Mae hyn yn profi i fod yn fformiwla wych. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'r tîm yn yr hyn sy'n argoeli i fod yn flwyddyn gyffrous a phrysur i bawb sy'n ymwneud â'r Môr Celtaidd.”

## Crynodeb o Newyddion Diweddaraf Prosiect Gwynt Glas

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Ystâd y Goron ei bod yn bwriadu dyfarnu 4GW o hawliau gwely'r môr i ddatblygwyr ar gyfer prosiectau gwynt alltraeth arnofiol yn y Môr Celtaidd,



## gyda 20GW pellach o gapasiti i ddilyn erbyn 2045.

Llun: Model 3D o fferm wynt alltraeth IGW arfaethedig Gwynt Glas

Ar hyn o bryd rydym yn cynnal gweithgareddau datblygu cychwynnol gyda'r bwriad o gael Cytundeb Prydles gan Ystâd y Goron ar gyfer fferm wynt alltraeth arnofiol IGW.

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- + Cynnal arolygon safle o'r awyr ar gyfer mamaliaid ac adar morol ers mis Ebrill 2021
- + Cysylltiad grid wedi'i sicrhau
- + Digwyddiad ymgynghori cyswllt â physgodfeydd masnachol yng Nghymru a De-orllewin Lloegr
- + Ymgynghori cychwynnol ar dderbynyddion allweddol megis llongau a mordwyo a chadwraeth natur
- + Gweithgarwch ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi
- + Datblygu gweithlu'r dyfodol a digwyddiadau allgymorth cymunedol
- + Cymryd rhan mewn fforymau diwydiant a mentrau ymchwil

Gallai ein prosiect IGW arfaethedig ddarparu pŵer ar gyfer tua 920,000 o gartrefi.\* I gael rhagor o wybodaeth am broses brydlesu [Ystâd y Goron cliciwch yma](#).

Ewch i wefan [Gwynt Glas](#) i gael y newyddion diweddaraf am y prosiect.

Parodrwydd am y Gadwyn Gyflenwi





Mae datblygu cadwyn gyflenwi arbenigol y gellir ymddiried ynnddi yn elfen bwysig o'n prosiect, gan gefnogi cymunedau arfordirol a chreu buddion hirdymor i'r rhanbarth. Dylai cwmnïau cadwyn gyflenwi sydd â diddordeb mewn gweithio gyda ni glicio yma i lenwi'r Ffurflen Diddordeb yn y Gadwyn Gyflenwi. - Byddwn yn paratoi'r farchnad ar gyfer cyfle'r Môr Celtaidd drwy siarad â chyflenwyr mewn digwyddiad ym Mharc y Scarlets cyn Cinio Clwb Busnes Bae Abertawe ar 1 Mawrth.

Llun: Cae rygbi Parc Y Scarlets Llanelli

Bydd busnesau'n gallu ddarganfod mwy am y diwydiant gwynt arnofiol a'n prosiect a sut y gallent gefnogi ei dwf.

Bydd ein tîm prosiect yn adeiladu ar hanes EDF o wneud y gorau o fuddion economaidd a chymdeithasol lleol wrth adeiladu prosiectau seilwaith ar raddfa fawr er ei fantais i gefnogi swyddi a chadwyni cyflenwi lleol. Y llynedd llofnododd y prosiect Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda gweithredwr porthladdoedd mwyaf y DU, Associated British Ports, a phorthladd ynni mwyaf Cymru, Porthladd Aberdaugleddau, i baratoi'r porthladdoedd ar gyfer anghenion gwynt alltraeth arnofiol yn y dyfodol yn y Môr Celtaidd. O dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, bydd gwybodaeth am y diwydiant yn cael ei rhannu i ymchwilio i'r cyfleoedd posibl ar gyfer gweithgynhyrchu, cydosod, llwytho a gwasanaethu ar gyfer prosiect Gwynt Glas o borthladdoedd allweddol de Cymru, sef Port Talbot ac Aberdaugleddau, gan ddangos ein bwriad i ganolbwyntio ar gadwyn gyflenwi leol a chefnogi swyddi lleol medrus hirdymor mewn rhanbarthau arfordirol.

Ar hyn o bryd mae EDF Renewables yn adeiladu prosiect peilot gwynt arnofiol cyntaf Ffrainc, Provence Grand Large, a ymrwymodd o'r cychwyn cyntaf i ddefnyddio cwmnïau lleol. Mae EDF hefyd yn adeiladu Hinkley Point C yng Ngwlad yr Haf, un o'r prosiectau adeiladu mwyaf yn Ewrop, y rhagwelir y bydd yn buddsoddi £18 biliwn ym Mhrydain ac yn cefnogi 71,000 o gyfleoedd am swyddi ledled y DU.



Llun: Seiliau wrthi'n cael eu hadeiladu yn Marseille ar gyfer prosiect Provence Grande Large

## Gosod y Seiliau ar Gyfer Gweithlu'r Diwydiant yn y Dyfodol

Gan gydnabod bod gweithlu medrus yn rhagofyniad i gyflwyno technoleg gwynt arnofiol yn gyflym, mae EDF Renewables a DP Energy wedi ymuno â Choleg Sir Benfro i gyflwyno rhaglen dan arweiniad y diwydiant sy'n paratoi myfyrwyr ar gyfer marchnad swyddi ynni adnewyddadwy yn y dyfodol.

Mae Cyrchfan Ynni Adnewyddadwy yn trosglwyddo gwybodaeth am sector y byd go iawn i bobl ifanc 16–18 oed. Nod y cydweithrediad â'r diwydiant a'r byd academaidd yw pontio'r bwlch sgiliau ac arddangos yr ystod amrywiol o yrfaeodd o fewn y sector. Hyd yma, mae 23 o gwmnïau partner cyflenwi o bob rhan o'r sector, a thros 40 o weithwyr proffesiynol dawnus wedi rhoi o'u hamser a'u gwybodaeth i ysbrydoli ac arddangos gyrfaeodd o fewn y sector.

Ni allem fod yn fwy balch bod Cyrchfan Ynni Adnewyddadwy wedi ennill 'Gwobr Sgiliau Ynni Gwynt Alltraeth' yng Ngwobrau Gwynt Alltraeth Byd-eang Renewable UK (RUK) cyntaf ym mis Hydref 2022 a chawsom ganmoliaeth gan feirniaid RUK am fod y fath o fenter sy'n helpu i osod y sylfeini ar gyfer gweithlu'r diwydiant yn y dyfodol. Yn yr un mis gwnaeth y rhaglen hefyd gyrraedd rownd derfynol Gwobrau STEM Cymru.



Llun: Digwyddiad lansio'r Rhaglen Cyrchfan Ynni Adnewyddadwy ar gyfer dysgwyr a'r diwydiant yng Ngholeg Sir Benfro, Mis Medi 2022



Llun: Gweithdy a chyflwyniad Cyrchfan Ynni Adnewyddadwy mae dros 23 o gwmnïau a 40 o weithwyr proffesiynol wedi cyflwyno sesiynau yn ymwneud ag Ynni Adnewyddadwy ar gyfer rhaglen y coleg hyd yma

## Her Gyntaf Ynni Adnewyddadwy Cystadleuaeth Sgiliau Cymru yn Llwyddiant Ysgubol

Mae Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru wedi bod yn cefnogi pobl ifanc ledled Cymru ers 2014 i gyflawni rhagoriaeth drwy Gystadlaethau Sgiliau, i'w helpu i ragori yn y byd gwaith.

Ar 2 Chwefror cynhaliodd Coleg Sir Benfro y digwyddiad cyntaf yn canolbwyntio ar Ynni Adnewyddadwy. Roedd yn bleser gan Gwynt Glas ei noddi, gan ganiatáu i dimau colegau o bob rhan o Gymru gymryd rhan.



Treuliodd y dysgwyr y diwrnod yn ymchwilio ac yn cyflwyno syniadau arloesol i ddod o hyd i ateb ynni cyfannol ar gyfer ynys ffuglennol sy'n dibynnu ar eneraduron disel sy'n heneiddio.

Dechreuodd y diwrnod gydag anerchiad gan Barry Walters, Pennaeth Coleg Sir Benfro a Sam Kurtz, Aelod o'r Senedd De Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro .



Llun: Soniodd Rebecca Williams, Cyfarwyddwr Ystad y Goron yng Nghymru, a oedd ar y panel beirniaid, am daith ei gyrfa ers gadael Coleg Sir Benfro a rôl Ystad y Goron yn natblygiad ynni adnewyddadwy yn y Môr Celtaidd.





Llun: Rhannodd Chris Williams, Pennaeth Datblygu'r DU a Marchnadoedd Newydd ar gyfer DP Energy, a oedd yn gweithredu fel ymgynghorydd i'r timau yn ystod y dydd, ei 30 mlynedd o brofiad o ddatblygu prosiectau adnewyddadwy ledled Cymru, y DU a thramor.

Treuliodd y dysgwyr lawer o amser yn ymchwilio i'w syniadau am brosiectau a gwnaeth eu cynigion terfynol argraff ar y beirniaid, sef panel o arbenigwyr y diwydiant.

Dywedodd Arwyn Williams, Pennaeth Peirianeg y Gyfadran yng Ngholeg Sir Benfro: "Mae hon wedi bod yn gystadleuaeth gyffrous, yn codi ymwybyddiaeth o rôl gynyddol bwysig cynhyrchu ynni adnewyddadwy, y cyfleoedd a'r heriau. Mae'r gystadleuaeth hon hefyd wedi helpu i ddatblygu rhai o'r sgiliau sydd eu hangen i weithio yn y diwydiant: datrys problemau, gwaith tîm, cyfathrebu effeithiol, rheoli adnoddau, arweinyddiaeth.

Hoffwn longyfarch pawb a gymerodd ran yn y digwyddiad heddiw. Rydym wedi gweld syniadau gwych yn cael eu cyflwyno. Mae lefel y proffesiynoldeb a welir yn yr ystafell heddiw wedi creu cymaint o argraff arnaf. Mae'r timau wedi cyflwyno gyda hyder a gwybodaeth fanwl. Da iawn bawb a gymerodd ran.

"Does gen i ddim amheuaeth y bydd y digwyddiad hwn yn helpu i baratoi ein myfyrwyr ar gyfer y newid i sero net. Rydym yn ddiolchgar i'n noddwyr Gwynt

Glas sydd wedi cefnogi'r gystadleuaeth beilot hon a gobeithio y bydd yn ennill momentwm wrth i brosiectau yn y Môr Celtaidd ddatblygu."

Bydd yr enillwyr yn cael eu cyhoeddi mewn seremoni wobrwyo Cymru gyfan ym mis Mawrth.

## Siarad!

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn ffodus i gael nifer o gyfarfodydd rhanddeiliaid allweddol gyda gweithwyr proffesiynol gwybodus sydd wedi rhoi adborth amhrisiadwy ar gyfyngiadau allweddol i'w hystyried yn ardal Y Môr Celtaidd.



Fe wnaeth ein cyfarfodydd wyneb yn wyneb â chynrychiolwyr pysgodfeydd lleol a busnesau yn Aberdaugleddau, Brixham, Padstow a Newlyn ein galluogi i rannu datblygiadau'r diwydiant gwynt alltraeth arnofiol, ein cynnig prosiect cyfnod cynnar a chael mewnwelediad gwerthfawr gan y rhai sy'n gweithio yn ardal y Môr Celtaidd ac o'i chwmpas.

## Ein Blwyddyn mewn Lluniau



GG Team Beach clean



Future Energy Wales 2022



EC Celtic Sea Conference 2022



STEM Education Outreach



Global Offshore Wind Award Winners



Future Energy Wales 2022 Panel



Careers Wales Event, Pembrokeshire



Destination Renewables Delivery Partners and Students



Brixham Fish Market

A joint venture partnership



## Cysylltwch â thîm prosiect Gwynt Glas

Ar gyfer y newyddion diweddaraf

Ewch i'n gwefan: [www.gwyntglas.com](http://www.gwyntglas.com)

Dilynwch ni ar LinkedIn: [EDF Renewables UK and Ireland](#) / [DP Energy Group](#)

Visit [gwyntglas.com](http://gwyntglas.com) for more information  
Ewch i [gwyntglas.com](http://gwyntglas.com) am fwy o wybodaet

